

Paratoi ar gyfer y RhDDC

Canllaw i'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol



Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol

Lle bynnag y mae gwybodaeth yn cael ei storio, mae angen i unigolion a sefydliadau gofio pwysigrwydd preifatrwydd a diogelwch y data.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn darparu fframwaith cyfreithiol o gyfrifoldebau ar sefydliadau (gan gynnwys ysgolion a cholegau) a chyflogwyr, a hawliau i unigolion (gan gynnwys athrawon) mewn perthynas â sicrhau preifatrwydd a chyfrinachedd.

O 25 Mai 2018 ymlaen, bydd y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) [General Data Protection Regulation (GDPR)] yn cymryd lle'r Ddeddf Diogelu Data. Nod y rhain, rheoliadau newydd yr UE, yw cryfhau ac uno'r rheoliadau i ddiogelu unrhyw ddata a gedwir o fewn sefydliadau, gan gynnwys ysgolion a cholegau.

Bydd y RhDDC yn gwneud newidiadau sylfaenol i'r ffordd y mae ysgolion a cholegau'n rheoli data a gwybodaeth a bydd yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar yr ysgolion a'r colegau i sicrhau eu bod yn rheoli'r data i gyd yn y ffordd gywir.

Nid yw'r RhDDC yn rhagnodi sut y dylai athrawon lynu at yr egwyddorion. Ond, yr hyn sy'n amlwg yw bod polisi e-ddiogelwch eglur yn hanfodol i sicrhau fod pob un o'r rhanddeiliaid allweddol yn gwybod yn union beth i'w wneud er mwyn parhau i gydymffurfio â'r gyfraith.

Lle bynnag y bydd aelodau'n wynebu problemau neu bryderon ynglŷn â defnyddio data personol, dylent gysylltu â NASUWT i gael cymorth a chyngor.

Cyflwyniad

Mae nifer o gysyniadau ac egwyddorion y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) yr un fath ag oeddent o dan ofynion Deddf Diogelu Data 1998. Fodd bynnag, mae ganddo elfennau newydd a gwelliannau sylweddol, felly bydd rhaid i ysgolion a cholegau wneud rhai pethau'n wahanol a gwneud rhai pethau am y tro cyntaf erioed.

Mae'r RhDDC yn rhoi mwy o bwyslais ar y ddogfennaeth y mae'n rhaid i ysgolion a cholegau ei chadw er mwyn dangos eu hatebolrwydd.

Bydd hefyd yn gofyn i ysgolion a cholegau adolygu'r ffordd y maent yn rheoli materion diogelu data.

Mae'r canllaw yma'n tynnu sylw at y camau cyntaf y dylai arweinwyr ysgolion a cholegau eu cymryd i baratoi ar gyfer y RhDDC a fydd yn weithredol o 25 Mai 2018 ymlaen.

Ymwybyddiaeth o'r Rheoliad

Gallai'r broses o weithredu'r RhDDC gael goblygiadau sylweddol, yn arbennig i sefydliadau mawr a mwy cymhleth, a gallai fod yn anodd cydymffurfio os gadewir y paratodau hyd y funud olaf.

Swyddog Diogelu Data Dynodedig

Mae gofyniad ffurfiol i bob ysgol a gynhelir ddynodi Swyddog Diogelu Data i arwain y broses hon. Os nad yw ysgolion a cholegau wedi penodi neu ddynodi'r cyfrifoldeb am ddiogelu data eto, argymhellir eu bod yn gwneud hynny gynted ag y bo'n ymarferol bosibl oherwydd bydd y RhDDC yn gorfodi gofynion arwyddocaol ychwanegol ar y sefydliadau hyn er mwyn cydymffurfio. Mewn rhai ysgolion a cholegau (h.y. y rhai a gynhelir, ac academiâu hefyd mae'n debyg) bydd dynodi Swyddog Diogelu Data yn dod yn ofyniad gorfodol beth bynnag.

Mae rôl y Swyddog Diogelu Data'n safle gweinyddol a thechnegol penodol. Nid yw'n gofyn am unrhyw wybodaeth ynghylch addysgu ac nid oes gofyn i athrawon gyflawni unrhyw elfen o'r rôl hon. Os gofynnir i aelodau NASUWT wneud unrhyw dasgau ychwanegol yn ymwneud â diogelu data neu o ganlyniad i'r RhDDC, dylent gysylltu â NASUWT ar unwaith.

Gwybodaeth a gedwir gan yr ysgol neu'r coleg

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau ddogfennu'r wybodaeth bersonol a gedwir, o le y daeth a gyda phwy mae'n cael ei rhannu. Efallai y bydd yn rhaid trefnu archwiliad o'r wybodaeth ar draws yr ysgol neu'r coleg mewn cysylltiad â gweithrediad y RhDDC.

Mae'r RhDDC yn gofyn i ysgolion neu golegau gadw cofnodion o'u camau prosesu. Er enghraifft, os bydd yr ysgol neu'r coleg yn cadw data personol anghywir ac yn eu rhannu gyda sefydliad arall, bydd yn rhaid rhoi gwybod am y gwall i'r sefydliad arall fel bod modd iddyn nhw gywiro eu cofnodion eu hunain. Ni fydd ysgolion a cholegau'n gallu gwneud hyn os nad ydynt yn cadw cofnod o ddata personol, sy'n dangos o le y daeth yr wybodaeth a gyda phwy y cafodd ei rhannu. Bydd y Swyddog Diogelu Data'n gyfrifol am helpu'r ysgol neu'r coleg i gydymffurfio â'r Rheoliad yn y maes yma.

Bydd rhaid i reolwyr data ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r Rheoliad a phrofi eu bod yn cymryd materion diogelu data o ddifrif drwy weithredu ystod o fesurau i sicrhau atebolrwydd. Mae esboniad o'r rhain isod.

1. Aseidiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd

Bydd y RhDDC yn disgwyl i'r sefydliad wneud rhywfaint o Aseidiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd. Mae Aseidiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd yn gofyn i ysgolion a cholegau ddogfennu:

- pa fath o wybodaeth bersonol fydd yn cael ei chasglu;
- sut mae'n cael ei chasglu, ei defnyddio, ei throsglwyddo a'i storio;
- sut a pham y gellir ei rhannu; a
- sut mae'n cael ei diogelu ar bob cam rhag datgeliad amhriodol.

2. Ffug-enwi

Mae'r term yma'n cyfeirio at y dechneg o brosesu data personol fel na ellir eu cysylltu bellach â gwrthrych data penodol heb eu croesgyfeirio â gwybodaeth arall. Mae'n rhaid cadw'r wybodaeth arall yma ar wahân ac yn atebol i fesurau diogelwch manylach er mwyn sicrhau na ellir adnabod gwrthrych y data.

3. Archwiliadau diogelu data

Dylai ysgolion a cholegau adolygu a dogfennu'r data personol y maent yn eu cadw, enwi'r ffynhonnell a nodi gyda phwy y rhennir y data.

Defnyddir archwiliadau diogelu data i fapio sut mae data personol yn dod i mewn i ysgolion a cholegau ac yn ymadael ag ysgolion a cholegau, a gellir eu defnyddio i fesur i ba raddau y mae'r ysgol neu'r coleg yn cydymffurfio â'r gyfraith ac i ganfod 'arwyddion o wendid' sydd angen sylw brys.

4. Adolygu polisïau diogelu data

O ganlyniad i'r RhDDC bydd angen i ysgolion a cholegau adolygu eu polisïau, yn arbennig y rheiny sy'n ymwneud â diogelu data. Dylai polisïau diogelu data i ddisgyblion a rhieni esbonio'n barod beth yw hawliau cyfreithiol unigolion a sut y gellir arfer yr hawliau hynny. Am fod y RhDDC yn diwygio'r hawliau hynny, bydd rhaid i bolisïau ysgolion a cholegau gael eu diwygio hefyd.

Bydd angen i unrhyw bolisïau y bwriedir i blant eu darllen hefyd gael eu hesbonio mewn iaith glir nad yw'n dechnegol, ac mewn ffordd y gall y gynulleidfa darged ei gweld a'i deall yn hawdd.

5. Hyfforddiant i'r staff mewn diogelu data

Bydd ysgolion a cholegau'n atebol o hyd i ddyletswydd i gymryd camau i gadw data personol yn ddiogel. Bydd disgwyl o hyd iddynt ddarparu hyfforddiant diogelu data i'r staff. Bydd angen i ysgolion a cholegau sicrhau bod staff newydd yn derbyn hyfforddiant mewn diogelu data cyn iddynt gael mynediad at ddata personol, a sicrhau hefyd bod y staff presennol yn derbyn hyfforddiant diweddarau'n rheolaidd.

Bydd ysgolion yn cael eu beirniadu, a gallent fod yn gyfreithiol atebol, os nad ydynt wedi sicrhau fod pob gweithiwr sy'n trin data personol wedi derbyn hyfforddiant mewn diogelu data.

Cyfathrebu gwybodaeth ynglŷn â preifatrwydd

Dylai ysgolion a cholegau adolygu'r hysbysiadau preifatrwydd cyfredol a rhoi cynllun ar waith i wneud unrhyw newidiadau sydd eu hangen mewn da bryd cyn i'r RhDDC ddod i rym.

Mae'r RhDDC yn gofyn bod ysgolion a cholegau'n rhoi gwybodaeth ychwanegol i unigolion am y ffordd y defnyddir eu data.

Mae gofyniad cyfreithiol yn barod i ysgolion a cholegau ddarparu gwybodaeth i unigolion (gan gynnwys staff, disgyblion a rhieni) am y ffordd y mae eu data personol yn cael eu casglu, eu storio a'u defnyddio. Fel arfer, darperir yr wybodaeth hon drwy hysbysiad preifatrwydd. Mae'r RhDDC yn ehangu'r rhestr o wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i unigolion. Mae'n rhaid cyfathrebu rhai darnau o wybodaeth ymhob achos (gwybodaeth orfodol mewn hysbysiadau preifatrwydd) tra bo darnau penodol o wybodaeth yn cael eu darparu mewn

achosion penodol (e.e. os yw'r ysgol neu'r coleg yn bwriadu prosesu'r data personol i bwrpasau sy'n wahanol i'r pwrpasau oedd yn bodoli ar amser casglu'r data). Er gwaethaf y ffaith fod angen cynnwys llawer iawn o wybodaeth erbyn hyn mewn hysbysiad preifatrwydd, disgwylir i ysgolion a cholegau ddarparu'r wybodaeth hon mewn ffordd gryno, onest, dealladwy a hawdd cael gafael arni.

Dyma rai o'r darnau gwybodaeth y bydd disgwyl i ysgolion a cholegau eu darparu:

- manylion adnabod a manylion cysylltu'r rheolydd data (yr ysgol neu'r coleg);
- pwrpas prosesu'r data personol a'r sail gyfreithiol dros wneud hynny;
- gyda phwy y rhennir y data personol;
- sut y diogelir y data pan drosglwyddir y data yma y tu allan i'r UE;
- y meini prawf ar gyfer cadw data ac am ba hyd y cedwir y data;
- hawliau cyfreithiol llawn yr unigolyn sy'n wrthrych y data;
- yr hawl i gwyno.

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol

Mae'r RhDDC yn nodi'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni fel bod y sefydliad yn prosesu data personol mewn ffordd gyfreithiol.

Mae hawl iddo brosesu data personol:

1. gyda chaniatâd;
2. lle bo'n angenrheidiol prosesu'r data ar gyfer contract; neu
3. lle bo'n angenrheidiol prosesu'r data i gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Mae'r RhDDC yn gofyn i ysgolion a cholegau gyhoeddi'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol a'i hesbonio, os oes raid, i'w staff, eu disgyblion a'u rhieni.

Er enghraifft, mae'n debygol mai'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu lluniau o'r staff neu'r disgyblion i bwrpasau adnabod (h.y. i'w rhoi yn y systemau rheoli gwybodaeth neu i'w defnyddio ar fathodynau adnabod) yw am fod y prosesu'n **angenrheidiol**. I'r gwrthwyneb, y sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio lluniau o'r staff neu'r disgyblion i bwrpasau marchnata'r ysgol neu'r coleg ac ar wefan yr ysgol neu'r coleg fyddai gyda **chaniatâd**.

Bydd rhai o hawliau'r unigolyn yn dibynnu ar y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol. Er enghraifft, bydd gan unigolion fwy o hawl i gael dileu eu data lle defnyddir caniatâd fel y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data.

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau esbonio'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol mewn hysbysiad preifatrwydd neu wrth ateb Cais Gwrthrych am Wybodaeth.

Caniatâd

O dan y RhDDC, mae'n rhaid i ysgolion a cholegau sicrhau caniatâd gan eu staff, eu disgyblion neu eu rhieni cyn prosesu eu data. I gwrdd â gofynion y RhDDC sy'n ymwneud â chaniatâd, mae'n rhaid i ddata personol fodloni'r meini prawf a ganlyn:

- **wedi ei roi o'u gwirfodd:** Mae'n rhaid i'r unigolion roi'r caniatâd o'u gwirfodd ac mae'n rhaid iddynt allu ei dynnu'n ôl unrhyw bryd. Rhaid iddi fod mor hawdd i unigolion dynnu eu caniatâd yn ôl ag ydoedd i'w roi yn y lle cyntaf;
- **penodol:** Mae'n rhaid sicrhau caniatâd ar wahân ar gyfer gwahanol weithrediadau prosesu. O dan y RhDDC rhagdybir y dylai'r datganiadau o ganiatâd fod ar wahân i gytundebau ysgrifenedig eraill;

- **wedi derbyn y ffeithiau:** Dylai ysgolion gyfathrebu'n glir i unigolion i beth y maent yn rhoi eu caniatâd ac am eu hawl i dynnu eu caniatâd yn ôl;
- **rhaid i'r caniatâd fod yn eglur a diamwys a bod yn arwydd cadarnhaol o gytundeb:** Ni fydd modd bellach i unrhyw un dybied bod yr unigolyn wedi rhoi caniatâd neu wedi awgrymu caniatâd drwy ddefnyddio blychau oedd â thic ynddynt o flaen llaw, neu oherwydd tawelwch neu ddiffyg ymateb yr unigolyn.

Nid oes gofyn i ysgolion a cholegau ddiweddarau pob caniatâd presennol yn awtomatig wrth baratoi ar gyfer y RhDDC.

Dylai ysgolion a cholegau adolygu'r ffordd y maent yn casglu, yn cofnodi ac yn rheoli caniatâd ac ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau.

Mae'n rhaid i ysgolion a cholegau gynnog ffyrdd syml i bobl dynnu eu caniatâd yn ôl.

Hawliau'r unigolion

Mae'r hawliau cyfreithiol sydd gan unigolion o dan y RhDDC yn cynnwys yr hawliau a ganlyn:

- hawl i gael gafael ar ddata a gedwir amdanoch;
- hawl i gael cywiro unrhyw wallau yn yr wybodaeth amdanoch;
- hawl i gael dileu gwybodaeth a gedwir amdanoch ('yr hawl i gael eich anghofio');
- hawl i atal marchnata uniongyrchol;
- hawl i rwystro sefydliad rhag gwneud penderfyniadau a phroffilio drwy system wedi'i hawtomeiddio;

- **hawl i gludadwyedd data** (bydd rhaid i ysgolion a cholegau ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani'n electronig ac mewn fformat cyffredin y gall peiriant ei ddarllen).

Mae'r hawl i gludadwyedd data'n newydd. Mae'n berthnasol:

- i ddata personol y mae unigolyn wedi'u darparu i ysgol neu goleg;
- lle mae'r prosesu wedi'i seilio ar ganiatâd yr unigolyn neu ar gyfer gweithredu contract; a
- phan fo'r prosesu'n digwydd drwy ddulliau wedi'u hawtomeiddio.

Hawl i wrthrych y data ei weld

Bydd y RhDDC yn caniatáu i unigolion ofyn i'r ysgol neu'r coleg am gopi o'u gwybodaeth bersonol ynghyd â gwybodaeth arall ynghylch y ffordd mae'n cael ei phrosesu; yr enw ar hyn yw Cais Gwrthrych am Wybodaeth.

O dan y RhDDC, bydd y rheolau'n newid mewn perthynas ag ymateb i Geisiadau Gwrthrych am Wybodaeth.

- Mae'n rhaid darparu gwybodaeth yn rhad ac am ddim fel arfer (ond nid ym mhob achos).
- Gellir codi ffi am geisiadau sy'n gofyn gormod neu sy'n amlwg heb sail iddynt, neu gellir gwrthod cydsynio iddynt.
- Mae'r cyfnod cwblhau ar gyfer prosesu'r wybodaeth wedi'i ostwng o 40 diwrnod calendr i '1 mis neu lai'. Gellir ymestyn y cyfnod hwn mewn achosion arbennig.
- Mae'n rhaid darparu gwybodaeth ychwanegol, e.e. cyfnodau cadw data'r ysgol neu'r coleg a'r hawl i gael cywiro data anghywir.

- Os bydd ysgol neu goleg eisiau gwrthod Cais Gwrthrych am Wybodaeth, bydd angen iddo/iddi gael polisïau a gweithdrefnau perthnasol yn eu lle a dangos pam y mae wedi gwrthod y cais.

Torri'r rheolau ynghylch data personol

Bydd rhaid i ysgolion a cholegau fabwysiadu gweithdrefnau mewnol ar gyfer canfod, rhoi gwybod am, a gwneud ymchwil i achos o dorri'r rheolau ynghylch data personol.

Mae'r RhDDC yn cyflwyno hysbysiad gorfodol am dorri rheolau i'r Awdurdod Diogelu Data, i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac, mewn rhai achosion, i'r unigolion a effeithir. Mae'n rhaid rhoi gwybod am achosion o dorri rheolau sy'n debygol o achosi i unigolyn ddioddef niwed, e.e. achosion o dorri'r rheolau a allai arwain at achos o ddwyn hunaniaeth neu dorri cyfrinachedd yr unigolyn. Mae'n rhaid bod gan ysgolion a cholegau systemau ar waith i ganfod ac ymchwilio i bob achos o dorri'r rheolau ac mae'n rhaid iddynt gadw cofrestr fewnol o bob achos o'r fath.

Pan fydd ysgolion a cholegau'n canfod achos o dorri'r rheolau sy'n atebol i'r rheolau hysbysu gorfodol, mae'n rhaid iddynt roi gwybod am yr achos heb fod yn hwyrach na 72 awr ar ôl dod yn ymwybodol ohono.

Pan fydd rhaid rhoi gwybod i'r unigolyn a effeithir am achos o dorri'r rheolau, rhaid gwneud hynny heb 'oedi gormodol'.

Gallai methu cydymffurfio â'r gofyniad yma arwain at ddirwyon gweinyddol o hyd at £10 miliwn (sef oddeutu £8.85 miliwn ar hyn o bryd) neu 2% o drosiant blynyddol y sefydliad.

Hawliau Plant

Mae'r RhDDC yn ystyried plant yn 'unigolion agored i niwed' sy'n haeddu 'diogelwch arbennig'.

Mae'r RhDDC yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau sy'n benodol berthnasol i blant, a'r rheiny'n fwyaf nodedig yng nghyd-destun hysbysiadau cyfreithiol a'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data plant.

Bydd angen i bob ysgol a choleg gydymffurfio â'r gofynion newydd wrth ysgrifennu hysbysiadau sy'n gorfod bod yn hawdd i blant eu deall.

Y prif ofyniad yw bod yn rhaid cael caniatâd eu rhieni pan gynigir gwasanaethau'n uniongyrchol i blant dan 16 oed.

Bydd gofyn i'r ysgol neu'r coleg wneud pob ymdrech resymol i wirio bod y caniatâd priodol wedi'i ddarparu.

NASUWT yw'r unig undeb sy'n ystyried gweithredu diwydiannol i amddiffyn athrawon a phrifathrawon rhag llwyth gwaith gormodol sy'n gysylltiedig â defnyddio systemau rheoli data a systemau prosesu gwybodaeth.

Bydd y Swyddog Diogelu Data'n gyfrifol am helpu'r ysgol neu'r coleg i gydymffurfio â'r RhDDC. Ni ddisgwylir i hyn effeithio ar lwyth gwaith athrawon, ac os disgwylir i aelodau wneud tasgau gweinyddol yn ymwneud â'r RhDDC, dylent gysylltu â NASUWT ar unwaith.

Am fod y RhDDC yn diwygio'r hawliau presennol sy'n ymwneud â data, bydd yn rhaid diwygio polisiau presennol ysgolion a cholegau hefyd. Byddai NASUWT yn disgwyl i gyflogwyr ymgynghori ag o ynglŷn ag unrhyw newidiadau i bolisiau ysgolion a cholegau ynghylch diogelu data sy'n ymwneud â staff.

Lle bynnag y bydd aelodau'n wynebu problemau neu bryderon ynglŷn â defnyddio data personol, dylent gysylltu â NASUWT i gael cymorth a chyngor.



029 2054 6080
rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
www.nasuwt.org.uk

Ffôn: 03330 145550
Eboost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

